

Deiseb: Dileu'r cyfyngiadau amser ar y gilfan i'r dwyrain o Grucywel

Y Pwyllgor Deisebau | 11 Rhagfyr 2018
Petitions Committee | 11 December 2018

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-851

Teitl y ddeiseb: Dileu'r cyfyngiadau amser ar y gilfan i'r dwyrain o Grucywel

Testun y ddeiseb: Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddileu'r cyfyngiad amser ar y gilfan i'r dwyrain o Grucywel. Ar hyn o bryd, mae terfyn amser o awr. Dyma'r unig gilfan â'r math hwn o gyfyngiad ar yr A40 yng Nghymru. Prin y gwelir cerbyd yno gan y byddai mynd i'r dref am gwpanaid o de yn mynd heibio'r terfyn amser.

Y cefndir

Y rhwydwaith cefnffyrdd

Yng Nghymru, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd, ac awdurdodau lleol yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer ffyrdd lleol. Mae'r A40 yn brif gefnffordd sy'n cysylltu Llundain ag Abergwaun ac mae'n rhan o rwydwaith cefnffyrdd Cymru. Felly, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer y rhan o'r ffordd sydd yng Nghymru.

Er mai Gweinidogion Cymru sydd â'r cyfrifoldeb statudol dros y rhwydwaith cefnffyrdd, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu dau asiant cefnffyrdd yng Nghymru sydd â chyfrifoldeb dros eu gweithredu, eu cynnal a'u cadw a gwneud mân welliannau i'r rhwydwaith o ddydd i ddydd:

- [Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru](#) (NMWTRA); ac
- [Asiant Cefnffyrdd De Cymru](#). (SWTRA)

Gorchmynion Rheoleiddio Traffig

Mae Gorchmynion Rheoleiddio Traffig (TRO) yn darparu'r pwerau cyfreithiol i wahardd neu gyfyngu ar draffig at ddibenion rheoli traffig amrywiol a gallant fod yn rhai parhaol neu'n rhai dros dro. Gellir gwneud Gorchmynion Rheoleiddio Traffig gan yr awdurdod traffig perthnasol ar gyfer y ffordd o dan [Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984](#) (Deddf 1984). Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod traffig perthnasol ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghymru.

Mae [Adran 2 o Ddeddf 1984](#) yn nodi'r hyn y gall Gorchmynion Rheoleiddio Traffig ddarparu ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys (pwyslais ychwanegol):

- (a) ei gwneud yn ofynnol i draffig cerbydol, neu draffig cerbydol o unrhyw ddsbarth a bennir yn y gorchymyn, fynd ymlaen i gyfeiriad penodol neu yn ei wahardd rhag mynd ymlaen;
- (b) pennu'r rhan o'r ffordd sydd i'w defnyddio gan draffig o'r fath i fynd ymlaen mewn cyfeiriad penodol;
- (c) **gwahardd neu gyfyngu ar gerbydau sy'n aros, neu lwytho a dadlwytho cerbydau;**
- (ch) gwahardd defnyddio ffyrdd gan draffig sy'n mynd yn ei flaen; neu
- (d) wahardd neu gyfyngu ar oddiweddyd.

Parcio yng Nghrucywel

Fel yr [adroddwyd ym mis Ionawr 2014 wrth Bwyllgor Sir Frycheiniog \(sydd bellach wedi'i ddileu\) Cyngor Sir Powys](#) (PDF, 68KB), cyfarfu'r awdurdod lleol â NMWTRA ynghylch parcio drwy'r dydd a masnachu yn y cilfannau ar gefnffordd yr A40 yng Nghrucywel. Cytunwyd i gyflwyno hyn a hyn o gyfyngiadau aros, a gwahardd cyfyngiadau aros ar unrhyw adeg yn y cilfannau hyn.

Gofynnodd NMWTRA i'r awdurdod lleol gynnal y broses o weithredu'r Gorchymyn. Cytunodd yr awdurdod lleol i gynnwys y cynigion hyn fel rhan o adolygiad ehangach o barcio yng Nghrucywel a gynlluniwyd ar gyfer yn ddiweddarach yn 2014, ac a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd yr adolygiad ehangach hwn yn cynnwys parcio ar y rhwydwaith ffyrdd lleol, y mae'r awdurdod lleol yn awdurdod priffyrdd ar ei gyfer.

Fel yr [adroddwyd yn y cyfryngau](#), cafwyd gwrthwynebiadau lleol i'r cyfyngiadau a gynigiwyd ar gyfer y cilfannau ac i'r cynigion ehangach o ran parcio yng Nghrucywel. Ni aethpwyd ymlaen â llawer o'r cynigion mewn perthynas â'r rhwydwaith ffyrdd lleol [o ganlyniad i'r gwrthwynebiadau hyn](#).

Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru

Yn ei lythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth:

... although I appreciate the concerns raised regarding lack of parking provision in the town, trunk road laybys are not provided for use as car parks.

Mae llythyr Ysgrifennydd y Cabinet yn mynd ymlaen i nodi mai'r rheswm dros gyflwyno'r cyfyngiad amser yn y gilfan hon oedd oherwydd bod masnachwyr yn ei gamddefnyddio a bod y gilfan yn cael ei defnyddio ar gyfer parcio hirdymor. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi ei fod yn deall bod y deisebydd wedi cytuno y dylent gysylltu â'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y rhwydwaith ffyrdd lleol, gan gynnwys parcio ar y stryd, ynghylch materion sy'n ymwneud â pharcio yng nghanol tref Crughywel.